

Gŵyl Gerdded



Wreccsam Mehefin 2023

9 diwrnod o deithiau cerdded AM DDIM i brofi harddwch a chanfod hanes G.Dd Cymru

Dydd Sadwrn 3ydd - Dydd Sul 11eg Mehefin 2023

**MAE'R TEITHIAU AM DDIM A DIM ANGEN TREFNU O
FLAEN LLAW – DEWCH A MWYNHEWCH!**

Dydd Sadwrn, Mehefin 3ydd

Taith 1

10.2 milltir (16.4 c), esgyn 600 m (1970 tr)

Caled

Taith gylchol tua 5.5 awr o **Glyndyfrdwy** yn esgyn heibio hen chwareli llechi i gopa Moel Fferna ac yna ar hyd Llwybr Gogledd y Berwyn a thrwy Coedwig Ceiriog cyn disgyn islaw Mynydd y Feifod i'r man cychwyn. Cyfarfod am 9:45 i gychwyn am 10:00 yn arosfan fawr ochr dde i'r A5, 5 milltir i'r gorllewin o Langollen cyn cyrraedd Glyndyfrdwy (LL21 9HT Cyf: SJ 154 426 [///roofer.shadow.spearhead](http://roofer.shadow.spearhead)). Dim cŵn. Andy, Bill a Roz yn arwain.

Taith 2

5-6 milltir (8-10 c), esgyn 120 m (390 tr)

Cymhedrol

Taith gylch 3-3.5 awr o **Brymbo** ar hyd llwybrau a ffyrdd, drwy goedwig, caeau a phentrefi lleol i fwynhau golygfeydd. Cyfarfod am 9.45 i gychwyn am 10.00 ym maes parcio Canolfan Menter, Ffordd y Chwyth, Brymbo (LL11 5BT Cyf: SJ 294 537 [///spilled.completed.quietest](http://spilled.completed.quietest)). Dim cŵn. Pat W a John I yn arwain.

Dydd Sul, Mehefin 4ydd

Taith 1

8.5 milltir (14 c), esgyn 450 m (1480 tr)

Caled

Taith gylch 4 awr o **Gorwen** ar hyd llwybr Gogledd y Berwyn i Gynwyd ac yna heibio rhaeadr Cynwyd a Choedwig Cynwyd i Liberty Hall. Dychwelwyd heibio Pen y Pigyn a golygfa arbennig yn ôl i'r man cychwyn. Cyfarfod am 9:15 i gychwyn am 9:30 ym maes parcio (Talu ac Arddangos) Lôn Las, Corwen (LL21 0DN Cyf: SJ 081 435 [///streaks.limelight.fillers](http://streaks.limelight.fillers)). Dim cŵn. Osian, Dermot a Roz yn arwain.

Taith 2 (Prynhawn)

5 milltir (8 c), esgyn 180 m (600 tr)

Cymhedrol

Taith tua 2-3 awr yn cynnwys rhai esgyniadau serth a grisiau o **Goedpoeth** i Byllau Plwm a Chwarel y Mwynglawdd gyda chyfle i gael lluniaeth yn nhafarn Ty'n y Capel wrth ddychwelyd. Cyfarfod am 13.45 i gychwyn am 14.00 ym maes parcio cyhoeddus oddi ar y Stryd Fawr, Coedpoeth gyferbyn a Fferyllfa Rowlands (LL11 7RY Cyf: SJ 284 512 [///essays.incensed.reclined](#)). Dim cŵn. Pat M a Rachel yn arwain.

Taith 3 (gyda'r nos)

2 filltir (3.5 c)

Hawdd

Taith byr, hamddenol, gwastad o oddeutu 2 awr o gwmpas **Wrecsam** gan aros ambell waith i glywed hanes y ddinas wedi ei seilio ar lyfryn newydd gan David Ebsworth: "*Wrexham Revealed: A Walking Tour with Tales of the City's History*". Cyfarfod am 18:15 i gychwyn am 18:30 o flaen Amgueddfa Wrecsam, Stryd y Rhaglaw (LL11 1RB Cyf: SJ 332 505 [///custom.avoid.moon](#)). Roz, John I a Jenny C yn arwain.

Dydd Llun, Mehefin 5ed

Taith 1

7 milltir (11.5 c), esgyn 495 m (1620 tr)

Caled

Taith gylchol 3.5 awr i fyny y ddwy ochr o ddyffryn Ceiriog o **Lwynmawr** (rhwng Pontfadog a Glyn Ceiriog). Cyfarfod am 9:15 i gychwyn am 9:30 ym maes parcio Maes y Wern, yng nghanol y pentref (LL20 7BB Cyf: SJ 222 371 [///attitudes flaunting kennels](#)). Dim cŵn. Bill, Claudine a Roy yn arwain.

Taith 2 (gyda'r nos)

5 milltir (8 c), esgyn 190 m (620 tr)

Cymhedrol

Taith gylch oddeutu 3 awr gyda rhai grisiau a llethrau o **Ddyffryn Moss**, ger **Gwersyllt**, i gyfeiriad Cymau a Mynydd yr Hôb. Cyfarfod am 17.45 i gychwyn am 18.00 o'r maes parcio wrth maes chwarae plant ar Ffordd yr Aber (LL11 6HT Cyf: SJ 312 523 [///topic.afford.strict](#)). Dim cŵn. John I a Pat W yn arwain.

Dydd Mawrth, Mehefin 6ed

Taith 1

8.5 milltir (14 c), esgyn 370 m (1220 tr)

Caled

Taith **llynol** oddeutu 4.5 awr o **Landegla** i **Rhuthun** ar hyd Llwybr Clawdd Offa heibio Moel y Plas a Moel Gyw gan ddefnyddio trafnidiaeth cyhoeddus. Cyfarfod yng ngorsaf bysiau Stryd y Brenin, Wrecsam am 8.35 i ddal bws Dinbych am 8:50. Dim cŵn. Osian, Dermot ac Alwyn yn arwain.

Taith 2

5 miles (8 c), esgyn 200 m (650 tr)

Cymhedrol

Taith o ddeutu 3 awr gyda rhai llethrau o **Chwarel y Mwynglawdd** i gyfeiriad Llandegla a chael paned yn y Ganolfan Beicio cyn dilyn trywydd y Grugiar Ddu, dros y gweunydd ac yn ôl drwy'r chwarel. Cyfarfod am 9.45, i gychwyn am 10.00 o faes parcio'r chwarel (LL11 3DE Cyf: SJ 258 520 [///shunted.typically.toolbar](http://shunted.typically.toolbar)). Dim cŵn. John I a Pat W yn arwain.

Taith 3 (prynhawn)

3 milltir (4.8 c), esgyn 50 m (165 tr)

Hawdd

Taith gylch oddeutu 2 awr yn addas ar gyfer cadair olwyn, sgwter symudedd, neu bygi plant o gwmpas **Gwarchodfa Natur Gwenffrwd** oddi ar A539 tu all i **Langollen** ac yna ar hyd llwybr yr hen rheilffordd tuag at y dref gan ddychwelyd ar hyd llwybr y gamlas. Cyfarfod am 12:45 i gychwyn am 13:00 o faes parcio'r Warchodfa (LL20 7UH Cyf: SJ 233 425 [///spirits.angry.bleaching](http://spirits.angry.bleaching)). Ceidwaid Cefn Gwlad Sir Ddinbych a Hazel yn arwain.

Dydd Mercher Mehefin 7fed

Taith1

6 milltir (10 c), esgyn 400 m (1320 tr)

Caled

Taith gylchol 3 awr o **Lanarmon Dyffryn Ceiriog** ar hyd Llwybr Ceiriog gyda'r cyfle o ginio ar y diwedd. Cyfarfod am 9:15 i gychwyn am 9:30 o ganol y pentref (LL20 7LD Cyf: SJ 157 328 [///camps.mows.enacts](http://camps.mows.enacts)). Dim cŵn. Bill, Jenny C a Lesley yn arwain.

Taith 2 (gyda'r nos)**5 milltir (8 c), esgyn 150 m (500 tr)****Cymhedrol**

Taith gylchol o ddeutu 2.5 awr o'r **Waen** i'r dwyrain tuag at Glynmorlas yna dychwelyd ar Lwybr Maelor a thros Traphont Ddwr y Waen. Cyfarfod am 17:45 i gychwyn am 18:00 yn maes parcio ger y Ganolfan Iechyd a thu ôl i Gwesty'r Hand oddi ar y B5070 yn y Waen (LL14 5DH Cyf: SJ 291 378 [///candidate.verge.amps](http://candidate.verge.amps)). Dim cŵn. Claudine a Hazel yn arwain.

Dydd Iau, Mehefin 8fed

Taith 1**6 milltir (10 c), esgyn 465 m (1520 tr)****Caled**

Taith 3.5 awr o **Glyn Ceiriog**. Cyfarfod am 9.15 i gychwyn am 9.30 ym maes parcio Canolfan Ceiriog sydd ar y dde wrth gyrraedd y pentref ar y B4500 (Ffordd Newydd) (LL20 7HE Cyf: SJ 204 379 [///mergers.alpha.rooms](http://mergers.alpha.rooms)). Dim cŵn. Marian, Jan a Lesley yn arwain.

Taith 2**4 miles (6.5 c), esgyn 65 m (215 tr)****Cymhedrol**

Taith gylch 2.5 awr o'r **Hôb** gyda chyfle i gael lliniaeth wedyn. Cyfarfod am 10:15 i gychwyn am 10.30 o'r maes parcio di-dâl gyferbyn a'r Ganolfan Iechyd Teuluol ar Ffordd Penarlâg (A550) yn yr Hôb (LL12 9NP Cyf: SJ 309 578 [///exclusive.this.gardens](http://exclusive.this.gardens)). Dim cŵn. Hazel ac Alwyn yn arwain.

Dydd Gwener, Mehefin 9fed

Taith 1**9 miles (14.5 c), esgyn 565 m (1850 tr)****Anodd**

Taith gylch oddeutu 5 awr yn cychwyn ger **Llanferres** heibio Coedwig Big Covert, Maeshafn a Choedwig Clwyd i Fwlch Penbarras cyn dychwelyd ar hyd llwybr Clawdd Offa a'r llwybrau maes i Plymog. Cyfarfod am 9.45 i gychwyn am 10.00 o'r arosfan fawr ar y A494 tua 0.5 milltir i'r de o Lanferres (CH7 5ST Cyf: SJ 187 597 [///hillsides.encrypted.blackbird](http://hillsides.encrypted.blackbird)). Dim cŵn. Andy, Claudine a Dennis yn arwain.

Taith 2 (Prynhawn)**4 milltir (6.5 c)****Haws**

Taith oddeutu 2 awr o gwmpas **Parc Gwledig Erddig**. Cwrdd am 13.15 i gychwyn am 13.30 o'r maes parcio mawr gyferbyn a chyfanwerthwyr Booker ym Melin Puleston ar Ffordd Rhiwabon, Wrecsam (LL13 7RF Cyf: SJ 325 494 [///explain.pinks.lawfully](#)). Dim cŵn. Jenny R a Lesley yn arwain.

Taith 3 (gyda'r nos)**4.8 milltir (7.6 c), esgyn 425 m (1400 tr)****Cymhedrol**

Taith gylchol o ddeutu 2.5 awr o ganol **Llangollen** ar hyd Llwybr Gogleddol y Berwyn. Cyfarfod am 17:45 i gychwyn am 18:00 wrth y bont gyferbyn a Gwesty Bridge End (LL20 8RY Cyf: SJ 215 422 [///searcher.perused.spindles](#)). Dim cŵn. Roy a Bill yn arwain.

Dydd Sadwrn, Mehefin 10ed

Taith 1**6 milltir (10 c), esgyn 550 m (1800 tr)****Caled**

Taith gylch 3.5 awr o **Fwlch Penbarras** (ger Llanferres) i gopa Moel Famau ac yna troi i'r gorllewin am Dyddyn Norbury, a dilyn llwybr heibio Fron Bellaf a Choed Ceunant yn ôl i'r man cychwyn. Cyfarfod am 9:45 i gychwyn am 10:00 yn maes parcio uchaf (Talu ac Arddangos) Bwlch Penbarras (CH7 5SH Cyf: SJ 161 606 [///pianist.also.pens](#)). Dim cŵn. Chris a Dennis yn arwain.

Taith 2**7.5 milltir (12 c), esgyn 50 m (165 tr)****Cymhedrol**

Taith gylchol 4 awr gwastad o **Holt** i Ridleywood yn dilyn yr Afon Ddyfrdwy, ar hyd dolydd a ffyrdd gwledig gyda golygfeydd godidog o'r brynau tua'r gorllewin. Cyfarfod am 10:15 i adael am 10.30 o faes parcio di-dâl Cross Street oddi ar B5102 yn Holt (LL13 9JZ Cyf: SJ 410 540 [///abolish.including.kinks](#)). Dim cŵn. Dermot a Pat W yn arwain.

Taith 3 (gyda'r nos)**6 milltir (10 c), esgyn 260 m (850 tr)****Cymhedrol**

Taith gylchol o ddeutu 3.5 awr o **Loggerheads, ger Yr Wyddgrug** i gyfeiriad Cilcain ar hyd ffyrdd, traciau a llwybrau ar draws caeau gn ddychwelyd ar hyd llwybr y Lît ger yr Afon Alyn. Cyfarfod am 16:45 i gychwyn am 17:00 ym maes parcio (Talu ac Arddangos) ym Mharc Gwledig Loggerheads. (CH7 5LH Cyf: SJ 198 626 [///stolen.lamp.drivers](#)). Dim cŵn. Hazel a Claudine yn arwain.

Dydd Sul, Mehefin 11fed

Taith 1

6 milltir (10 c), esgyn 470 m (1550 tr)

Caled

Taith gylch 3 awr o gopa **Bwlch yr Oernant** ar hyd Llwybr Clwyd i Eglwyseg. Cyfarfod am 9.15 i gychwyn am 9.30 o'r man parcio gyferbyn a chaffi Ponderosa (LL20 8DR Cyf: SJ 192 481 [///regulates.panic.drifters](http://regulates.panic.drifters)). Dim cŵn. Osian a Dennis yn arwain.

Taith 2 (gyda'r nos)

5 milltir (8 c), esgyn 85 m (280 tr)

Haws

Taith gylch ar draws caeau o gwmpas pentre' **Owrtyn** ar ran o Lwybr Maelor gan ddychwelyd drwy Lightwood Green. Cyfarfod am 16.45 i gychwyn am 17.00 o faes parcio Ffordd yr Eglwys (B5069) yn Owrtyn (LL13 0EN Cyf: SJ 373 418 [///sunbeam.grape.polices](http://sunbeam.grape.polices)). Dim cŵn. Hazel a Jenny R yn arwain.

Bras amcan yw pellteroedd ac amseriadau'r teithiau cerdded. Efallai y bydd angen i arweinwyr newid teithiau ar ôl ystyried maint y grŵp, y tywydd neu newid mewn amgylchiadau eraill.

Mae'r teithiau wedi ei graddio.

- Bydd teithiau caled yn 6 milltir neu fwy, yn croesi tir garw, yn dringo camfeydd ac yn aml yn cynnwys sawl esgyniad rhai ohonynt yn serth, ac felly mae angen lefel ffitrwydd da.
- Bydd teithiau cymhedrol yn fyrach, yn croesi peth tir garw, yn cynnwys rhai esgyniadau ac weithiau rhai camfeydd.

Arweinir pob taith gan wirfoddolwyr sydd yn arweinwyr cerdded hyfforddedig.

Bydd angen gwisgo esgidiau cerdded a dillad addas a dylir cario bwyd a diod ar gyfer y teithiau hirach.

Gan bydd y teithiau yn croesi caeau sy'n cynnwys defaid ac anifeiliaid pori eraill, ni chaniateir cŵn.

Cewch y wybodaeth ddiweddaraf a mwy o fanylion am y manau cychwyn ac hefyd manylion am ein rhaglen rheolaidd o deithiau ar wefan www.walksinwrexham.com neu ebostiwrch walkaboutwrexham@outlook.com. Fel arall cysylltwch â'r Ganolfan Croeso, Stryd Caer, Wrexham LL13 8BE (01978-292015) tourism@wrexham.gov.uk